**Uned Gofal Dwys Pediatrig (PICU) Beechwood**
**Ysbyty Sant Cadog**

**Rhif ffôn: 01633 436977**





## Croeso i'r Uned Gofal Dwys Pediatrig (PICU)

Croeso i Uned PICU Ward Beechwood – yn ystod eich amser gyda ni, byddwn yn eich cefnogi a'ch cynnwys yn y broses o wneud asesiadau unigol a phenderfyniadau triniaeth yn seiliedig ar eich anghenion a'ch dymuniadau presennol chi, gymaint â phosibl. Mae ein hathroniaeth yn cynnwys proses adfer a dull gwasanaeth cyfan, a all gynnwys; nyrsio, meddygol, therapi galwedigaethol, gwasanaethau cymdeithasol, staff seicoleg a chysylltiadau gyda sefydliadau gwirfoddol. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

## Gair am yr Uned

Mae ward Beechwood yn Uned Gofal Dwys Seiciatrig (PICU), rhywedd cymysg gyda 9 gwely. Mae'r PICU yn cynnig gwasanaeth ar draws y Bwrdd Iechyd ac felly'n derbyn cyfeiriadau ar gyfer cleifion o fewn dalgylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'n ward dan glo, er mae'r amgylchedd ffisegol strwythuredig wedi'i gynllunio i hwyluso rheolaeth therapiwtig sy'n cael ei hasesu ac sy'n seiliedig ar ymyriadau dwys arbenigol ac nid cyfyngu.

Bydd cleifion sy'n cael eu derbyn neu eu trosglwyddo i PICU ward Beechwood yn cael pecyn asesu a thriniaeth dwys tymor byr ac yna'n cael eu trosglwyddo i un o'r wardiau acíwt ar gyfer oedolion cyn gynted ag y bydd eu cyflwr meddwl yn gwella, ar gyfer triniaeth barhaus fel claf mewnol. Neu fel arall, byddant yn parhau â'u hadferiad mewn lleoliadau diogel pellach.

## Cael eich derbyn i’r uned

I'ch cefnogi yn ystod eich derbyniad, bydd cydlynydd gofal yn cael ei neilltuo i chi. Bydd yr unigolyn hwn yn eich cynorthwyo ac yn eich cefnogi chi a'r tîm i nodi eich anghenion a bydd yn gweithio gyda chi i ddatblygu eich llwybr gofal a’ch cynllun gofal unigol.

Er mwyn sicrhau eich diogelwch wrth gael eich derbyn: -

- ✓ Rhowch bob meddyginiaeth sy’n eiddo i chi i ni fel y gall aelod cymwys o’r staff nyrsio reoli'r gwaith o weinyddu a monitro.

- ✓ Os oes gennych unrhyw sylweddau anghyfreithlon neu alcohol, gofynnwn i chi roi'r rhain i ni fel y gellir cael gwared arnynt yn ddiogel.

- ✓ Bydd staff y ward yn rhestru pob eitem rydych wedi dod â hi i'r ysbyty gyda chi ac yn eu cofnodi mewn llyfr eiddo gyda chi. Byddem yn eich annog i anfon unrhyw swm o arian mwy na £30.00 yn ôl adref. Bydd unrhyw eitemau a allai fod yn anniogel yn cael eu storio'n briodol i leihau unrhyw risgiau posibl. Byddai hyn yn cynnwys tanwyr sigaréts, eitemau miniog, sylweddau anghyfreithlon ac ati.

- ✓ Yn ystod eich amser gyda ni, rydym yn eich annog i anfon popeth gwerthfawr yn ôl adref. Os ydych yn dymuno cadw rhai eitemau, bydd blychau diogelwch unigol y gellir eu cloi ar gael i chi yn ystod eich arhosiad. Mae hyn oherwydd nad yw'r Bwrdd Iechyd yn derbyn cyfrifoldeb am eich eiddo yn ystod eich arhosiad yn yr ysbyty.

- ✓ Os oes gennych eitemau trydanol sydd angen eu pweru, siaradwch ag aelod o staff ar y ward a byddwn yn fwy na pharod i’ch helpu.




## Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae gan bob claf fynediad at wasanaethau eiriolaeth. Mae’r Eiriolwr yn ymweld â’r ward yn rheolaidd a bydd ar gael i siarad gyda chi a darparu cefnogaeth ymarferol neu gyngor. Gellir gofyn i staff y ward am fanylion ynghylch sut i gysylltu â'r gwasanaeth eiriolaeth.

## Amseroedd Ymweld

Mae amseroedd ymweld fel arfer yn cael eu trefnu a'u dyrannu drwy slotiau amser, siaradwch ag aelod o staff i gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut y gellir archebu'r rhain. Mae'r amseroedd hyn yn hyblyg a gellir ystyried dewisiadau eraill.

Os bydd plant yn dod i'ch gweld ar y ward, a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni ymlaen llaw fel y gellir gwneud trefniadau priodol. Bydd angen i unrhyw un o dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn a hwyluso'r ymweliad oddi ar y ward mewn amgylchedd priodol. Os ydych yn glaf ffurfiol, bydd angen caniatâd Adran 17 arnoch i fynychu ymweliad oddi ar y ward



## Amseroedd Bwyta

Mae'r ward yn hyrwyddo bwyta'n iach ac mae ganddi amseroedd bwyta gwarchodedig. Bydd hyn yn eich galluogi i fwyta eich pryd mewn heddwch. Rydym yn derbyn y bydd rhai eithriadau yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn felly trafodwch hyn gyda'r staff nyrsio.

## Trosglwyddo

Mae'n bosibl y bydd achlysuron, oherwydd rhesymau clinigol, y bydd angen i chi symud i ward wahanol o fewn y Bwrdd Iechyd. Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i gyfyngu ar ddigwyddiadau fel hyn, gan sicrhau bod unrhyw drosglwyddiadau yn seiliedig ar angen clinigol.

## Arsylwi a Diogelwch

Mae'r uned yn gweithredu polisi arsylwi diogel er mwyn lleihau risgiau a chynnal amgylchedd therapiwtig diogel i'r holl gleifion yn ein gofal. Bydd unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn eich lefel arsylwi yn cael ei esbonio'n eglur i chi gan y tîm nyrsio.

## Statws Derbyn

Os ydych yn **glaf Ffurfiol** byddwch yn cael eich cadw ar y ward o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Gall cleifion sy'n cael eu cadw'n ffurfiol adael yr uned ar gytundeb gyda'u Clinigydd Cyfrifol trwy Adran 17.

Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi i chi mewn perthynas â'ch statws Deddf Iechyd Meddwl a bydd gennych hawl i gael eich cynrychioli gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA). Fel claf sy'n cael ei gadw, mae gennych hawl i apelio i reolwyr yr ysbyty a/neu Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.



## Rownd Ward

Mae'r ward yn cynnwys 1 Meddyg Ymgynghorol sy'n adolygu'r cleifion o leiaf unwaith yr wythnos. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu wrth eich derbyn:

- Rownd Ward – bore dydd Mawrth

Mae'r Rownd Ward yn gyfle i chi a'r rhai sy'n ymwneud â'ch gofal adolygu eich cynnydd a'ch triniaeth bresennol. Bydd aelod o staff yn esbonio ymlaen llaw i chi beth fydd ffurf yr adolygiad ac yn trafod pwy allai fod yn bresennol.

Os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus â hyn, rhowch wybod i aelod o staff neu Eiriolwr y claf.

Byddwch chi, Nyrs Gofrestredig (neu ddirprwy sydd wedi'i henwebu) a Chynrychiolydd Meddygol (fel arfer Seiciatrydd Ymgynghorol) yn bresennol fel arfer. O dro i dro efallai bydd uwch aelodau o'r tîm rheoli yn bresennol, megis Rheolwr y Ward neu'r Uwch Nyrs. Gellir gwahodd disgyblaethau eraill hefyd pe bai anghenion penodol yn cael eu nodi ond bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi ymlaen llaw. Eich dewis chi fydd penderfynu a all eiriolwr y claf a/neu aelod o'r teulu neu ffrind ddod i'r Rownd Ward gyda chi. Fel gwasanaeth rydym yn annog cynnwys teuluoedd a gofalwyr yn y broses o lunio Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.

## Cyfrinachedd/Gwybodaeth Feddygol




Mae gan holl aelodau o staff sy'n gweithio i'r GIG ac i'r Awdurdod Lleol rwymedigaeth gyfreithiol i gadw gwybodaeth amdanoch yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Mae adegau pan mae'n briodol rhannu gwybodaeth amdanoch chi a'ch gofal iechyd gydag eraill fel meddygon teulu a gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. Mae'r angen i rannu gwybodaeth berthnasol yn bwysig er mwyn ein helpu i gydweithio er eich budd chi. Efallai y bydd amgylchiadau eithriadol pan fydd eich gwybodaeth yn cael

ei datgelu neu lle mae'r gyfraith yn mynnu bod gwybodaeth yn cael ei thrafod. Gyda'ch caniatâd, mae’n bosibl y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda’ch perthynas, gofalwr neu ffrind sydd wedi ei enwi gennych.

## Staff ar y Ward

Mae’r tîm ar y ward yn cynnwys Nyrsys Cofrestredig, Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, Therapyddion Galwedigaethol, Meddygon, Seicolegwr a staff domestig.

O dro i dro, mae’n bosibl y bydd myfyrwyr nyrsio/ meddygol / therapi galwedigaethol yn ymwneud â’ch gofal, er bod gennych hawl i wrthod eu cyfraniad os dymunwch. Cefnogir meddygon ymgynghorol gan feddygon iau, sy'n cylchdroi ledled y Bwrdd Iechyd.

## Therapi Galwedigaethol

Nod therapi galwedigaethol (OT) yw eich cefnogi gyda'r pethau sy'n bwysig i chi yn eich bywyd. Gall hyn olygu gweithio tuag at nodau bach y gellir eu rheoli sy'n dechrau helpu i ychwanegu strwythur a threfn arferol at eich bywyd bob dydd, gan arwain at nodau tymor hirach i weithio tuag atynt yn y dyfodol.

Mae Therapi Galwedigaethol yn canolbwyntio ar adferiad wrth fynd i’r afael â sgiliau bywyd o ran hunanofal, bod yn gynhyrchiol a hamdden. Cynigir rhaglenni graddedig 'Adfer trwy weithgaredd' ar bob ward sy'n ymdrin â phynciau diddorol amrywiol trwy gydol eich derbyniad. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau y gallech fod yn gyfarwydd â nhw yn ogystal â chyfleoedd i roi cynnig ar rywbeth newydd. Bydd rhai yn seiliedig ar wybodaeth a rhai yn seiliedig ar weithgaredd.

## Gweithgareddau a Therapïau



Mae gweithgareddau a therapïau ar gael ar y ward. Rydym yn y broses o ddyfeisio amserlen Adfer newydd sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau/ymyriadau sydd â'r nod o'ch cefnogi drwy eich adferiad yn ystod eich amser ar y ward. Mae ambell un o'r rhain yn cael eu hwyluso gan y Tîm Therapi Galwedigaethol, eraill gan staff y ward ac asiantaethau allanol sy'n darparu gwasanaethau mewngymorth ar y ward. Mae rhai o’r gweithgareddau’n cael eu cynnal ar y ward a gall eraill ddigwydd yn y gymuned. Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu teilwra ar gyfer eich anghenion unigol.

Yn ddiweddar rydym wedi sefydlu cyfrif Twitter ar y ward lle rydym yn rhannu gweithgareddau a phrofiadau cadarnhaol staff a chleifion. Bydd gofyn i chi arwyddo ffurflen gydsyniad cyn y bydd unrhyw gynnwys gael ei rannu. Byddwn yn sicrhau bod cyfrinachedd cleifion yn cael ei ddiogelu gan na fyddwn yn dangos wynebau unigol o fewn unrhyw ran o'n cynnwys.

## Therapi Seicolegol

Fel rhan o gyflwyno'r rhaglen therapiwtig, mae therapïau seicolegol ar gael yn yr uned i archwilio ffyrdd o ymdopi ag argyfyngau ac emosiynau gofidus. Ymarferir sgiliau megis ymlacio a meddwlgarwch. Mae'r sesiynau hyn yn hyblyg ac wedi'u teilwra cymaint â phosibl i fodloni eich anghenion unigol. Mae croeso mawr i chi siarad ag aelod o staff os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

## Cyfleusterau Golchi Dillad



Mae cyfleusterau golchi dillad ar gael ar y ward.
Dydd Sul, dydd Mercher a dydd Gwener yw diwrnodau golchi dillad. Os bydd angen i chi olchi unrhyw beth tu hwnt i'r diwrnodau hyn, siaradwch gyda'r Nyrs â Chyfrifoldeb.

## Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)

Defnyddir CCTV ar y ward mewn rhai mannau i wella diogelwch ac i roi tawelwch meddwl i gleifion, ymwelwyr a staff bod ymdrechion yn cael eu gwneud i'w diogelu. Mae arwyddion wedi'u harddangos yn dweud wrthych ble mae'r CCTV ar waith.

Mae defnyddio CCTV yn unol â pholisïau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r ddeddfwriaeth bresennol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch defnyddio CCTV, siaradwch gydag aelod o staff y ward.

## Alcohol a Chyffuriau

Yn ystod eich amser fel claf mewnol, byddem yn gofyn i chi ymatal rhag defnyddio alcohol neu sylweddau anghyfreithlon. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd staff nyrsio yn gofyn i chi gael prawf sgrinio alcohol neu gyffuriau, os bydd arsylwadau clinigol yn dangos bod angen. Mae hyn oherwydd y gallent fod â risg sylweddol i'ch iechyd meddwl a chorfforol gan achosi rhyngweithiadau niweidiol gydag unrhyw feddyginiaeth a ragnodwyd.

## Trais ac Ymddygiad Ymosodol

Mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithredu dull dim goddefgarwch at unrhyw drais neu ymddygiad ymosodol at gleifion eraill, ymwelwyr neu staff y Bwrdd Iechyd. Os bydd unrhyw un yn mynd yn groes i hyn, gall arwain at alw’r heddlu ac efallai erlyniad.

## Ysmygu

Mae BIPAB yn gweithredu polisi dim ysmygu ar dir yr ysbyty. Fodd bynnag, oherwydd natur y ward, mae gennym ardal ysmygu bwrpasol lle caniateir ysmygu, a chaiff hyn ei oruchwylio gan staff bob awr rhwng 6am a hanner nos. Oherwydd yr angen am oruchwyliaeth staff, mae amser penodedig o 15 munud yn cael ei roi fesul awr. Yn unol â pholisi’r Bwrdd Iechyd, gofynnwn i chi beidio ag ysmygu mewn unrhyw ardal arall a bod pob taniwr sigaréts yn cael eu rhoi i staff pan fyddwch yn cael eich derbyn i'r ysbyty. Gwaherddir Fêps ar yr uned. Mae opsiwn i gael therapi amnewid nicotin ar bresgripsiwn. Siaradwch â'r Nyrs â Chyfrifoldeb os hoffech drafod hyn ymhellach.

## Dyfeisiau Symudol – Cyfrinachedd



Mae’r risg o ddefnyddio ffonau symudol yn cael ei asesu ar yr uned yn ystod y rownd ward. Os dymunwch wneud neu dderbyn galwad ffôn wrth aros am adolygiad, siaradwch gydag aelod o staff. Pan fyddwch yn troi at eich dyfais symudol, dylech ei defnyddio mewn modd diogel a pharchus yn unol â'ch cynllun gofal.
Gall defnyddio dyfeisiau eraill ar gyfer tynnu lluniau/recordio, neu ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol anaddas gael effaith sylweddol ar gyfrinachedd ac adferiad unigolyn.

Siaradwch gydag aelod o staff i wneud trefniadau i bweru eich ffôn symudol neu ddyfais.

## Canmoliaethau a Chwynion




Rydym yn croesawu eich adborth a byddwn yn defnyddio unrhyw sylwadau cadarnhaol neu negyddol sydd gennych am ein gwasanaeth i wella profiad y claf.

Os ydych yn anhapus gydag unrhyw elfennau o'n gwasanaeth, codwch eich pryderon gyda'r staff sy'n ymwneud â'ch gofal neu driniaeth fel y gallant geisio datrys eich pryderon ar unwaith. Os nad yw hyn yn helpu neu os nad ydych am siarad â'r staff am eich pryderon, mae taflen **Gweithio i Wella’r** Bwrdd Iechyd ar gael ar y ward.

Yn ogystal, byddem yn croesawu unrhyw adborth cadarnhaol neu ganmoliaeth. Byddwn yn dangos y sylwadau hyn i aelod o staff ar y ward.

Pan fyddwch yn cael eich trosglwyddo neu eich rhyddhau o Ward Beechwood, gofynnwn yn garedig i chi lenwi neges ryddhau ar gyfer ein gardd adferiad.

**Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y daflen hon. Peidiwch ag oedi cyn siarad ag aelod o staff ar y ward os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon.**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg**